Heol y Porth

Croesfan i Gerddwyr

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Medi 2022

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion Cyngor Caerdydd i adeiladu croesfan barhaol i gerddwyr ar Heol y Porth. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 22 Awst 2022 a 12 mis Medi 2022.

Roedd y gweithgareddau canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad i hyrwyddo'r ymgynghoriad ac i gael adborth gan y cyhoedd i lywio'r cynllun:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun;
- Hysbysiadau safle yn cael eu harddangos yng nghyffiniau'r cynllun;
- E-bost at ymgyngoreion statudol;
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor; ac
- Arolwg ar-lein (trwy wefan y Cyngor / dosbarthu llythyrau)

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafodd tua 250 o lythyrau eu hanfon at drigolion a busnesau'r ardal ger y cynnig hwn. At ei gilydd, derbyniwyd 11 o ymatebion drwy ddolen yr arolwg i'r ymgynghoriad.

Mae **Siart 1** yn dangos, allan o'r 11 ymateb, ar y cyfan nid yw'r ymatebwyr yn cefnogi'r mesurau arfaethedig.

Sylwadau a godwyd

Ceir isod grynodeb o'r sylwadau a godwyd drwy'r ymgynghoriad gydag ymateb y Cyngor.

Mater	Ymateb
Dylid gosod y groesfan barhaol ar yr un pryd â beicffordd ar Heol y Porth	Mae dyheadau tymor hir i osod beicffordd ar Heol y Porth. Bydd angen gwaith dylunio ac ymgynghori sylweddol cyn y gwaith adeiladu ar y cynigion hyn. Mae angen gosod croesfan barhaol cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau diogelwch cerddwyr.
• *Mae goleuadau dros dro yn nodwedd anneniadol y tu allan i Marlborough House"* • *Mae cerddwyr yn ymgasglu y tu allan i breswylfeydd ar Heol y Porth wrth aros i groesi'r ffordd.* • *Efallai na fydd preswylwyr Marlborough House a Branksome House yn gallu parcio y tu allan i fynedfeydd ar gyfer danfoniadau/gollwng. Bydd hyn yn achosi problem yn arbennig i drigolion sydd â nam ar eu symudedd.*	Mae'r groesfan wedi cael ei chynnig yn y lleoliad y tu allan i Dy Marlborough gan fod hyn yn caniatáu i gael mwy o le i hwyluso traffig bysiau y tu allan i Stadiwm Principality a Maes Parcio NCP yn ystod pandemig COVID 19. Ond, mae'r Cyngor yn cydnabod y sylwadau a'r materion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn gan y cyhoedd a chan gynghorwyr. Bydd cynnig i ail-osod y groesfan i gerddwyr yn ei leoliad gwreiddiol yn cael ei lunio.

Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Er bod nifer gymharol isel o ymatebion i'r arolwg ymgynghori (11 ymateb, o 250 llythyr), roedd yr ymatebion hyn hefyd yn adlewyrchu barn y cynghorwyr lleol ar gyfer yr ardal.

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn teimlo'n gryf iawn na ddylid gosod y groesfan i gerddwyr yn y lleoliad arfaethedig oherwydd yr effaith ar breswylfeydd Marlborough House a Branksome House ar Heol y Porth.

Mae'r cyngor yn gwerthfawrogi'r farn a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ac yn deall y materion a godwyd ynghylch y lleoliad y tu allan i Marlborough House a bydd yn ystyried opsiynau amgen ar gyfer lleoliad y groesfan.

Argymhellion/ Camau Gweithredu

Argymhellir nad yw'r cynllun yn symud ymlaen yn ei drefniant presennol ac y cymerir y camau canlynol:

- Bydd cynllun ar gyfer adeiladu'r groesfan i gerddwyr yn ei lleoliad blaenorol, rhwng Stadiwm y Principality a maes parcio NCP yn cael ei lunio a'i symud ymlaen i'w adeiladu.
- Bydd effaith ail-osod yn y lleoliad gwreiddiol ar draffig bysiau yn cael ei hasesu.
- Ni chaiff ymgynghoriad/ymgysylltu â'r cyhoedd pellach ei gynnal.